OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A48, yr A483, yr A477, yr A487 a'r A4076 (Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 30 mya, Terfyn Cyflymder 20 mya, a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2023

*Gwnaed* *19 Medi 2023*

*Yn dod i rym* *20 Medi 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A40, yr A48, yr A483, yr A477, yr A487 a'r A4076, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), 84(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A48, yr A483, yr A477, yr A487 a'r A4076 (Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 30 mya, Terfyn Cyflymder 20 mya, a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Medi 2023.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40, A48, A483, A477, A487 and A4076 Trunk Roads (Carmarthenshire and Pembrokeshire) (30 mph, 20 mph and Part-Time 20 mph Speed Limits) Order 2023

*Made* *19 September 2023*

*Coming into force* *20 September 2023*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40, A48, A483, A477, A487 and A4076 trunk roads, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), 84(1)(c), 84(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 and regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A40, A48, A483, A477, A487 and A4076 Trunk Roads (Carmarthenshire and Pembrokeshire) (30 mph, 20 mph and Part-Time 20 mph Speed Limits) Order 2023 and this Order comes into force on 20 September 2023.

(**1**) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y cyfyngiad 20 milltir yr awr yn erthygl 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

**Restrictions**

**3.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

**Application**

**6.** The 20 miles per hour restriction in article 5 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**Dirymiadau**

**7.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A4076) (Pont Fadlen, Dyfed) (Ffyrdd Cyfyngedig) 1986(**1**), Gorchymyn Cefnffordd (Johnston, Preseli) (Ffyrdd Cyfyngedig) 1975(**2**), Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Steynton Road, Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017(**3**), Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Abergwaun Isaf, Abergwaun, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 20 mya a 30 mya) 2002(**4**), Gorchymyn (Diddymu) Gorchymyn y Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder 40 MYA) (Rhif 6) (Cymru) 1968 2000(**5**), Gorchymyn Cefnffordd (Abergwaun, Dyfed) (Ffyrdd Cyfyngedig) 1983(**6**), Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 20 mya) 2017(**7**), Gorchymyn Cefnffordd (yr A487) (Trefdraeth, Dyfed) (Dileu Cyfyngiad) 1987(**8**), Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Eglwyswrw, Crymych, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 30 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017(**9**), Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cwr Deheuol Tŷ-Croes, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2002(**10**), Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017(**11**), Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pen-y-banc, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017(**12**), Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Llandeilo a Heol Gwilym, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder Rhan-amser o 20 mya) 2016(**13**), Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Talhardd Villas, Ffair-fach, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2002(**14**), Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 20 mya Llawnamser a Rhan-amser) 2017(**15**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Newydd a Heol Llanfair, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder Rhan-amser o 20 mya) 2017(**16**) wedi eu dirymu.

**Revocations**

**7.** The Trunk Road (A4076) (Merlin's Bridge, Dyfed) (Restricted Roads) Order 1986(**1**), the Trunk Road (Johnston, Preseli) (Restricted Roads) Order 1975(**2**), the A4076 Trunk Road (Steynton Road, Milford Haven, Pembrokeshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2017(**3**), the A487 Trunk Road (Lower Town, Fishguard, Pembrokeshire) (20 and 30 mph Speed Limits) Order 2002(**4**), the Trunk Roads (40 MPH Speed Limit) (No.6) (Wales) Order 1968 (Revocation) Order 2000(**5**), the Trunk Road (Fishguard, Dyfed) (Restricted Roads) Order 1983(**6**), the A487 & A40 Trunk Roads (Fishguard, Pembrokeshire) (20 mph Speed Limit) Order 2017(**7**), the Trunk Road (A487) (Newport, Dyfed) (De-Restriction) Order 1987(**8**), the A487 Trunk Road (Eglwyswrw, Crymych, Pembrokeshire (30 mph & Part-Time 20 mph Speed Limits) Order 2017(**9**), the A483 Trunk Road (Southern Approach to Tŷ-Croes, Ammanford, Carmarthenshire) (30mph speed limit) Order 2002(**10**), the A483 Trunk Road (Pontardulais Road, Tycroes, Carmarthenshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2017(**11**), the A483 Trunk Road (Pen-y-Banc Road, Ammanford, Carmarthenshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2017(**12**), the A483 Trunk Road (Llandeilo Road & Heol Gwilym, Llandybie, Carmarthenshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2016(**13**), the A483 Trunk Road (Talhardd Villas, Ffairfach, Llandeilo, Carmarthenshire) (30 mph Speed Limit) Order 2002(**14**), the A483 Trunk Road (Rhosmaen Street, Llandeilo, Carmarthenshire) (Full & Part-Time 20 mph Speed Limit) Order 2017(**15**) and the A483 Trunk Road (New Road & Llanfair Road, Llandovery, Carmarthenshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2017(**16**) are revoked.

(**1**) O.S. 1986/710.
(**2**) O.S. 1975/1461.
(**3**) O.S. 2017/429 (Cy. 91).
(**4**) O.S. 2002/2937.
(**5**) O.S. 2000/438 (Cy. 18).
(**6**) O.S. 1983/47.
(**7**) O.S. 2017/86 (Cy. 31).
(**8**) O.S. 1987/1947.
(**9**) O.S. 2017/816 (Cy. 193).
(**10**) O.S. 2002/748 (Cy. 79).
(**11**) O.S. 2017/226 (Cy. 61).
(**12**) O.S. 2017/224 (Cy. 60).
(**13**) O.S. 2016/1056 (Cy. 248).
(**14**) O.S. 2002/2128 (Cy. 215).
(**15**) O.S. 2017/38 (Cy. 15).
(**16**) O.S. 2017/313 (Cy. 81).

(**1**) S.I. 1986/710.
(**2**) S.I. 1975/1461.
(**3**) S.I. 2017/429 (W. 91).
(**4**) S.I. 2002/2937.
(**5**) S.I. 2000/438 (W. 18).
(**6**) S.I. 1983/47.
(**7**) S.I. 2017/86 (W. 31).
(**8**) S.I. 1987/1947.
(**9**) S.I. 2017/816 (W. 193).
(**10**) S.I. 2002/748 (W. 79).
(**11**) S.I. 2017/226 (W. 61).
(**12**) S.I. 2017/224 (W. 60).
(**13**) S.I. 2016/1056 (W. 248).
(**14**) S.I. 2002/2128 (W. 215).
(**15**) S.I. 2017/38 (W. 15).
(**16**) S.I. 2017/313 (W. 81).

**Addasiadau**

**8.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Travellers Rest, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 2019(**1**) wedi ei addasu drwy ddileu erthygl 4 o'r Gorchymyn hwnnw ac Atodlen 2 iddo.

**9.** Mae Gorchymyn Cefnffyrdd (Ardaloedd Adeiledig) (Rhif 4) 1939(**2**) wedi ei addasu drwy ddileu'r disgrifiad o'r darn o ffordd a bennir yn yr Ail Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw sy'n dechrau â'r pennawd "London-Fishguard Trunk Road" ac sy'n gorffen â'r geiriau "Great Western Railway Bridge at Goodwick Station".

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Medi 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**Modifications**

**8.** The A40 Trunk Road (Travellers Rest, Carmarthenshire) (50 mph & 30 mph Speed Limits) Order 2019(**1**) is modified by the deletion of article 4 and Schedule 2 to that order.

**9.** The Trunk Roads (Built up Areas) (No. 4) Order 1939(**2**) is modified by the deletion of the description of the length of road specified in the Second Schedule to that Order which begins with the heading "London-Fishguard Trunk Road" and ends with the words "Great Western Railway Bridge at Goodwick Station".

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 19 September 2023

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## ATODLEN 1

## TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

### YR A40 - ABERGWILI

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Abergwili yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ogledd-orllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Abergwili hyd at bwynt 62 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Abergwili yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr dde-ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Abergwili hyd at bwynt 76 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Abergwili yr A40 yn Sir Gaerfyrddin.

## SCHEDULE 1

## 30 MPH SPEED LIMIT

### A40 - ABERGWILI

The length of the A40 trunk road at Abergwili in Carmarthenshire that extends from its junction at the north-western side of the circulatory carriageway of Abergwili Roundabout to a point 62 metres north-west of that said junction.

The length of the A40 trunk road at Abergwili in Carmarthenshire that extends from its junction at the south-eastern side of the circulatory carriageway of Abergwili Roundabout to a point 76 metres south-east of that said junction.

The circulatory carriageway of the A40 Abergwili Roundabout in Carmarthenshire.

(**1**) O.S. 2019/1415 (Cy. 252).
(**2**) O.S. 1939/73.

(**1**) S.I. 2019/1415 (W. 252).
(**2**) S.I. 1939/73.

**YR A40 - LLANGYNNWR**

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Llangynnwr yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ogledd-ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Llangynnwr hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Llangynnwr yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr dde-orllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Llangynnwr hyd at bwynt 65 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Llangynnwr yr A40 yn Sir Gaerfyrddin.

**YR A40 - TRE IOAN**

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 yn Nhre Ioan yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn hyd at bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â cherbytffordd tua'r gorllewin yr A40.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 yn Nhre Ioan yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn hyd at bwynt 15 metr i'r de-orllewin o'r gerbytffordd tua'r gorllewin.

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain cefnffordd yr A40 yn Nhre Ioan yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn hyd at bwynt 55 o fetrau i'r de-orllewin o'u cyffordd â Heol Llansteffan.

**YR A40 - TRAVELLERS REST**

Y ffyrdd ymuno ac ymadael yn Travellers Rest (o'r enw Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin) yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'u cyffyrdd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at eu cyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Maes y Sioe, Caerfyrddin.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Maes y Sioe, Caerfyrddin yn Travellers Rest (o'r enw Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin) yn Sir Gaerfyrddin.

Y darn o'r gefnffordd yn Travellers Rest yn Sir Gaerfyrddin sy'n rhan o'r (B4312) Heol Llysonnen (o'r enw hefyd Ffordd Gyswllt tua'r De yr A40 i Drosbont Travellers Rest) sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yr A40 yn Travellers Rest yn Sir Gaerfyrddin.

Ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 yn Travellers Rest yn Sir

**A40 - LLANGUNNOR**

The length of the A40 trunk road at Llangunnor in Carmarthenshire that extends from its junction at the north-eastern side of the circulatory carriageway of Llangunnor Roundabout to a point 37 metres north-east of that said junction.

The length of the A40 trunk road at Llangunnor in Carmarthenshire that extends from its junction at the south-western side of the circulatory carriageway of Llangunnor Roundabout to a point 65 metres south-west of that said junction.

The circulatory carriageway of the A40 Llangunnor Roundabout in Carmarthenshire.

**A40 - JOHNSTOWN**

The length of the westbound entry slip road of the A40 trunk road at Johnstown in Carmarthenshire that extends to a point 10 metres south-east of its junction with the A40 westbound carriageway.

The length of the westbound exit slip road of the A40 trunk road at Johnstown in Carmarthenshire that extends to a point 15 metres south-west of the westbound carriageway.

The lengths of the westbound and eastbound slip roads of the A40 trunk road at Johnstown in Carmarthenshire that extend to a point 55 metres south-west of their junction with Llansteffan Road.

**A40 - TRAVELLERS REST**

The entry and exit slip roads at Travellers Rest (known as the A40 Link Road to Carmarthen Livestock Market) in Carmarthenshire that extend from their junctions with the main westbound carriageway to their junction with the main circulatory carriageway of the Carmarthen Showground Roundabout.

The circulatory carriageway of the Carmarthen Showground Roundabout at Travellers Rest (known as the A40 Link Road to Carmarthen Livestock Market) in Carmarthenshire.

The length of the trunk road at Travellers Rest in Carmarthenshire being part of the (B4312) Llysonnen Road (also known as the A40 Southern Link Road to Travellers Rest Over-bridge) that extends from its junction with the A40 Link Road to Carmarthen Livestock Market to its junction with the circulatory carriageway of the Carmarthen West Link Road.

The circulatory carriageway of the A40 Carmarthen West Link Road Roundabout at Travellers Rest in Carmarthenshire.

The eastbound entry and eastbound exit slips roads of

Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'u cyffyrdd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin hyd at bwynt 28 o fetrau i'r de o'r gylchfan honno.

**YR A40 - SANCLÊR**

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 yn Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd tua'r gorllewin yr A40 hyd at bwynt 34 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A4066 Stryd Fawr.

**YR A48 - CROSS HANDS**

Y darn o gefnffordd yr A48 yn Cross Hands yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ogledd-orllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands hyd at bwynt 189 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A48 yn Cross Hands yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr dde-ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands hyd at bwynt 125 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Cross Hands yr A48 yn Sir Gaerfyrddin.

**YR A483 - LLANDYBÏE**

Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Heol Llandeilo yn Llandybïe yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 31 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Pentregwenlais hyd at bwynt 126 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd fynediad Ystad Ddiwydiannol Heol Llandeilo.

**YR A483 - HEOL PEN-Y-BANC, RHYDAMAN**

Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Heol Pen-y-banc yn Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 16 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddienw sy'n arwain at Pontyclerc Farm House hyd at bwynt 80 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Ffordd Villiers.

**YR A40 - ROBESTON WATHEN**

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Robeston Wathen yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ogledd-ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Robeston Wathen hyd at bwynt 12 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Robeston Wathen yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr dde-orllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Robeston Wathen hyd at bwynt 18 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd honno.

the A40 trunk road at Travellers Rest in Carmarthenshire that extend from their junctions with the circulatory carriageway of Carmarthen West Link Road Roundabout to a point 28 metres south of that said roundabout.

**A40 - ST CLEARS**

The length of the westbound exit slip road of the A40 trunk road at St Clears in Carmarthenshire that extends from its junction with the A40 westbound carriageway to a point 34 metres east of its junction with the A4066 High Street.

**A48 - CROSS HANDS**

The length of the A48 trunk road at Cross Hands in Carmarthenshire that extends from its junction at the north-western side of the circulatory carriageway of Cross Hands Roundabout to a point 189 metres north-west of that said junction.

The length of the A48 trunk road at Cross Hands in Carmarthenshire that extends from its junction at the south-eastern side of the circulatory carriageway of Cross Hands Roundabout to a point 125 metres south-east of that said junction.

The circulatory carriageway of the A48 Cross Hands Roundabout in Carmarthenshire.

**A483 - LLANDYBIE**

The length of the A483 trunk road known as Llandeilo Road at Llandybie in Carmarthenshire that extends from a point 31 metres north-east of the centre-point of its junction with Pentregwenlais Road to a point 126 metres south-west of the centre-point of its junction with Llandeilo Road Industrial Estate access road.

**A483 - PENYBANC ROAD, AMMANFORD**

The length of the A483 trunk road known as Penybanc Road at Ammanford in Carmarthenshire that extends from a point 16 metres west of the centre-point of its junction with an unnamed road leading to Pontyclerc Farm House to a point 80 metres west of its junction with Villiers Road.

**A40 - ROBESTON WATHEN**

The length of the A40 trunk road at Robeston Wathen in Pembrokeshire that extends from its junction at the north-eastern side of the circulatory carriageway of Robeston Wathen Roundabout to a point 12 metres north-east of that said junction.

The length of the A40 trunk road at Robeston Wathen in Pembrokeshire that extends from its junction at the south-western side of the circulatory carriageway of Robeston Wathen Roundabout to a point 18 metres

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Robeston Wathen yr A40 yn Sir Benfro.

**YR A40 - PONT CANASTON**

Y darn o gefnffordd yr A40 ym Mhont Canaston yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Canaston hyd at bwynt 48 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 ym Mhont Canaston yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr orllewinol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Canaston hyd at bwynt 19 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont Canaston yr A40 yn Sir Benfro.

**YR A40 - WDIG**

Y darn o gefnffordd yr A40 o'r enw Parrog yn Wdig yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ogleddol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Windyhall hyd at bwynt 58 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd fynediad i Faes Parcio Phoenix.

**YR A40 - ABERGWAUN**

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Abergwaun yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ddeheuol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Windyhall hyd at bwynt 25 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Windyhall yr A40 yn Sir Benfro.

**YR A477 - LONDON ROAD, DOC PENFRO**

Y darn o gefnffordd yr A477 o'r enw London Road yn Noc Penfro yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr dde-ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Waterloo Road hyd at bwynt 22 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Eastern Avenue.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Waterloo Road yr A477 yn Sir Benfro.

**YR A487 - ABERGWAUN**

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Hill Terrace yn Abergwaun yn Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Tower Hill hyd at bwynt 8 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Parcio Skirmisher a Bridge Street.

**YR A487 - EGLWYSWRW**

Y darn o gefnffordd yr A487 yn Eglwyswrw, Crymych

south-west of that said junction.

The circulatory carriageway of the A40 Robeston Wathen Roundabout in Pembrokeshire.

**A40 - CANASTON BRIDGE**

The length of the A40 trunk road at Canaston Bridge in Pembrokeshire that extends from its junction at the eastern side of the circulatory carriageway of Canaston Bridge Roundabout to a point 48 metres east of that said junction.

The length of the A40 trunk road at Canaston Bridge in Pembrokeshire that extends from its junction at the western side of the circulatory carriageway of Canaston Bridge Roundabout to a point 19 metres west of that said junction.

The circulatory carriageway of the A40 Canaston Bridge Roundabout in Pembrokeshire.

**A40 - GOODWICK**

The length of the A40 trunk road known as the Parrog at Goodwick in Pembrokeshire that extends from its junction at the northern side of the circulatory carriageway of Windyhall Roundabout to a point 58 metres south-east of its junction with the access road to Phoenix Car Park.

**A40 - FISHGUARD**

The length of the A40 trunk road at Fishguard in Pembrokeshire that extends from its junction at the southern side of the circulatory carriageway of Windyhall Roundabout to a point 25 metres south of that said junction.

The circulatory carriageway of the A40 Windyhall Roundabout in Pembrokeshire.

**A477 - LONDON ROAD, PEMBROKE DOCK**

The length of the A477 trunk road known as London Road at Pembroke Dock in Pembrokeshire that extends from its junction at the south-eastern side of the circulatory carriageway of Waterloo Road Roundabout to a point 22 metres south-east of the centre-point of its junction with Eastern Avenue.

The circulatory carriageway of the A477 Waterloo Road Roundabout in Pembrokeshire.

**A487 - FISHGUARD**

The length of the A487 trunk road known as Hill Terrace at Fishguard in Pembrokeshire that extends from a point 70 metres north of the centre-point of its junction with Tower Hill to a point 8 metres north-west of the centre-point of its junction with Skirmisher Car Park and Bridge Street.

yn Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 12 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at yr annedd o'r enw Penllyn hyd at bwynt 92 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 yn Eglwyswrw, Crymych yn Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 39 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddienw sy'n gyfagos i Dŷ Hafren hyd at bwynt 176 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

**YR A4076 - JOHNSTON**

Y darn o gefnffordd yr A4076 o'r enw Milford Road yn Johnston yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ddeheuol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Sunnycroft hyd at bwynt 90 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A4076 o'r enw Milford Road yn Johnston yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ogleddol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Sunnycroft hyd at bwynt 11 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Bulford Road.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Sunnycroft yr A4076 yn Sir Benfro.

**YR A4076 - CARTLETT**

Y darn o gefnffordd yr A4076 o'r enw Freemens Way yn Cartlett yn Hwlffordd, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 54 o fetrau i'r de o'i chyffordd â ffordd fynediad Neuadd Sir Penfro hyd at ei chyffordd ar ochr ddeheuol Cylchfan Salutation Square.

**YR A40 - FFORDD DDEUOL CARTLETT**

Y darn o gefnffordd yr A40 yn Cartlett yn Hwlffordd, Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd ar ochr ddwyreiniol cerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square hyd at bwynt 60 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ymuno Cartlett Road.

**YR A40 - CARTLETT**

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square yr A40 yn Cartlett yn Hwlffordd, Sir Benfro.

**YR A4076 - PONT FADLEN**

Y darn o gefnffordd yr A4076 o'r enw Dredgeman Hill ym Mhont Fadlen yn Hwlffordd, Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen hyd at bwynt 17 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd ag Avallenau Drive.

**YR A4076 - ABERDAUGLEDDAU**

**A487 - EGLWYSWRW**

The length of the A487 trunk road at Eglwyswrw, Crymych in Pembrokeshire that extends from a point 12 metres south-west of the centre-point of its junction with the access road leading to the dwelling known as Penllyn to a point 92 metres south-west of the centre-point of that said junction.

The length of the A487 trunk road at Eglwyswrw, Crymych in Pembrokeshire that extends from a point 39 metres north-east of the centre-point of its junction with the unnamed road adjacent to Tŷ Hafren to a point 176 metres north-east of the centre-point of that said junction.

**A4076 - JOHNSTON**

The length of the A4076 trunk road known as Milford Road at Johnston in Pembrokeshire that extends from its junction at the southern side of the circulatory carriageway of Sunnycroft Roundabout to a point 90 metres south of that said junction.

The length of the A4076 trunk road known as Milford Road at Johnston in Pembrokeshire that extends from its junction at the northern side of the circulatory carriageway of Sunnycroft Roundabout to a point 11 metres south of the centre-point of its junction with Bulford Road.

The circulatory carriageway of the A4076 Sunnycroft Roundabout in Pembrokeshire.

**A4076 - CARTLETT**

The length of the A4076 trunk road known as Freemens Way at Cartlett in Haverfordwest, Pembrokeshire that extends from a point 54 metres south of its junction with the Pembrokeshire County Hall entrance road to its junction at the southern side of Salutation Square Roundabout.

**A40 - CARTLETT DUALS**

The length of the A40 trunk road at Cartlett in Haverfordwest, Pembrokeshire that extends from its junction at the eastern side of the circulatory carriageway of Salutation Square Rounbabout to a point 60 metres east of the centre-point of its junction with the entry slip road of Cartlett Road.

**A40 - CARTLETT**

The circulatory carriageway of the A40 Salutation Square Roundabout at Cartlett in Haverfordwest, Pembrokeshire.

**A4076 - MERLINS BRIDGE**

The length of the A4076 trunk road known as Dredgeman Hill at Merlin's Bridge in Haverfordwest,

Y darn o gefnffordd yr A4076 o’r enw Steynton Road yn Steynton yn Aberdaugleddau, Sir Benfro sy’n ymestyn o bwynt 92 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Mariners Way hyd at bwynt 18 metr i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4325 Coombs Road.

**ATODLEN 2**

**TERFYN CYFLYMDER 20 MYA**

**YR A483 - FFAIR-FACH**

Y darn o gefnffordd yr A483 yn Ffair-fach, Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Maerdy hyd at bwynt 317 o fetrau i’r de-orllewin o’r gyffordd honno.

**YR A487 - ABERGWAUN, CWM ABERGWAUN**

Y darn o gefnffordd yr A487 yng Nghwm Abergwaun, Abergwaun yn Sir Benfro sy’n ymestyn o bwynt 8 metr i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Maes Parcio Skirmisher/Bridge Street hyd at bwynt 40 metr i’r de-ddwyrain o ffordd ymuno ac ymadael ogledd-ddwyreiniol Maes Parcio Caer Abergwaun.

**ATODLEN 3**

**TERFYN CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER**

**YR A4076 - ABERDAUGLEDDAU**

Y darn o gefnffordd yr A4076 o’r enw Steynton Road yn Steynton yn Aberdaugleddau, Sir Benfro sy’n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Skomer Drive hyd at bwynt 92 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Mariners Way.

Pembrokeshire that extends from a point 28 metres south of its junction with Merlin’s Bridge Roundabout to a point 17 metres south-west of the centre-point of its junction with Avallenau Drive.

**A4076 - MILFORD HAVEN**

The length of the A4076 trunk road known as Steynton Road at Steynton in Milford Haven, Pembrokeshire that extends from a point 92 metres south-west of the centre-point of its junction with Mariners Way to a point 18 metres north-east of the centre-point of its junction with the B4325 Coombs Road.

**SCHEDULE 2**

**20 MPH SPEED LIMIT**

**A483 - FFAIRFACH**

The length of the A483 trunk road at Ffairfach, Llandeilo in Carmarthenshire that extends from the centre-point of its junction with Heol y Maerdy to a point 317 metres south-west of that said junction.

**A487 - FISHGUARD, LOWER TOWN**

The length of the A487 trunk road at Lower Town Fishguard in Pembrokeshire that extends from a point 8 metres north-west of the centre-point of its junction with Skirmisher Car Park/Bridge Street to a point 40 metres south-east of the north-eastern entry and exit slip of Fishguard Fort Car Park.

**SCHEDULE 3**

**PART-TIME 20 MPH SPEED LIMIT**

**A4076 - MILFORD HAVEN**

The length of the A4076 trunk road known as Steynton Road at Steynton in Milford Haven, Pembrokeshire that extends from a point 35 metres north-east of the centre-point of its junction with Skomer Drive to a point 92 metres south-west of the centre-point of its junction with Mariners Way.